# TALIADAU AM GYNGOR CYNLLUNIO CYN YMGEISIO

## Ymgeisio Nodyn 1 Ebrill 2025

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn croesawu ac yn annog trafodaethau gyda darpar ddatblygwr a /neu dirfeddiannwr cyn cyflwyno cais cynllunio fel y gellir codi materion yn ystod camau cynnar y broses gynllunio i wella ansawdd cyffredinol y datblygiad yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r nodyn canllaw hwn a ffioedd hefyd yn berthnasol i'r bwriad i gyflwyno ceisiadau cynllunio ôl-weithredol.

Ers Ebrill 2010, mae'r Awdurdod wedi gweithredu gwasanaeth talu ffioedd am gyngor cynllunio cyn gwneud cais i gynnal a gwella'r lefelau gwasanaeth presennol ac i adennill cost y gwasanaeth. Cymeradwywyd yr adolygiad diweddaraf hwn o'r gwasanaeth, a daeth yn effeithiol ar 1 Ebrill 2025.

Mae'r nodyn cyngor hwn yn nodi'r hyn y bydd yr Awdurdod yn codi tâl amdano am gyngor cyn gwneud cais a'r hyn y byddwn yn ei wneud o ganlyniad, a'r wybodaeth y mae'n ofynnol i chi ei darparu.

Mae'r ffi am gyngor cynllunio cyn gwneud cais yn ychwanegol at y ffi cais cynllunio ffurfiol, y gellir dod o hyd i fanylion pellach amdani drwy https://bannau.cymru

**Rhoddir cyngor cyn gwneud cais ar sail anffurfiol heb ragfarnu gan Swyddogion Cynllunio yn seiliedig ar y wybodaeth sy'n wybyddus y pryd hwnnw. Ni fydd unrhyw gyngor a roddir yn rhwymo'r Awdurdod wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau yn y dyfodol. Ond bydd y cyngor a ddarperir yn rhoi dealltwriaeth dda i ddarpar ddatblygwyr a thirfeddianwyr o'r materion allweddol y byddai angen ymdrin â hwy i gefnogi cais cynllunio dilynol.**

Os oes arnoch angen cadarnhad ffurfiol a oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad ai peidio, bydd angen i chi gyflwyno cais am dystysgrif datblygu cyfreithlon[1].

[1]Mae Tystysgrif Datblygu Cyfreithlon yn fath o gais sy'n ystyried yn ffurfiol a oes angen caniatâd cynllunio ai peidio. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar _ http://bannau.wales /the-authority/planning

**PAM GOFYN AM GYNGOR?**

Gallai proses y cais cynllunio fod yn gymhleth. Mae manteision sylweddol mewn gofyn am gyngor cyn gwneud cais fel:

- cael dealltwriaeth o sut y bydd ein polisïau cynllunio yn cael eu cymhwyso i'ch datblygiad.

- adnabod yn gynnar lle mae angen mewnbwn arbenigol, er enghraifft am adeiladau rhestredig, coed, tirwedd, sŵn, cludiant, tir halogedig, ecoleg neu archeoleg. Bydd Swyddogion Cynllunio yn cynnwys cyngor arbenigol arall os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol ac yn briodol, er mai dim ond ar gyfer cynlluniau mwy cymhleth sy'n cynhyrchu ystod eang o faterion cynllunio ac effeithiau a allai fod yn sylweddol y mae ymagwedd o'r fath yn debygol o fod yn briodol ac yn effeithiol. Am resymau cyfrinachedd, nodwch yn eich gohebiaeth os ydych yn cytuno i gynnwys rhanddeiliaid eraill (ee Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau cyfansoddol) yn y broses cyn gwneud cais.

- cymorth wrth baratoi cynigion ar gyfer cyflwyno cais ffurfiol a fydd, ar yr amod eich bod wedi cymryd ein cyngor yn llawn, yn cael ei brosesu'n fwy effeithlon ar ôl ei gyflwyno.

- Gallai arwain at ostyngiad yn yr amser a dreulir gan eich cynghorwyr proffesiynol wrth lunio cynigion.

- efallai y bydd yn nodi bod cynnig yn gwbl annerbyniol, gan arbed y gost o gyflwyno cais ffurfiol i chi

- sicrhau bod cais yn gyflawn ac yn gynhwysfawr ac o safon foddhaol, gan osgoi cael ei wrthod yn y cyfnod dilysu neu wrthod caniatâd yn gynnar oherwydd gwybodaeth annigonol neu anghyflawn.

**BETH YW'R TALIADAU?**

Mae'r taliadau cyn ymgeisio perthnasol wedi'u nodi yn Atodiad **1.**

Fodd bynnag, **NI fyddwn yn codi tâl am gyngor yn yr amgylchiadau canlynol:**

- Cynghorau Tref a Chymuned, Elusennau Cofrestredig neu brosiectau cymunedol gan grwpiau nid-er-elw cyfansoddedig lle mae diben y prosiect o fudd uniongyrchol i gymunedau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Bydd hyn yn ôl disgresiwn swyddogion.

- Ymholiadau a wnaed gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

- Ymholiadau a wneir gan berson sydd wedi'i gofrestru yn anabl – lle mae'r datblygiad er budd y person hwn, ac eithrio lle mae annedd newydd yn cael ei gynnig.

**PA GYNGOR FYDD YN CAEL EI DDARPARU?**

Bydd ein cyngor cyn gwneud cais yn rhoi'r canlynol i chi:

- Hanes cynllunio perthnasol y safle;

- Nodi polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol;

- Nodi cyfyngiadau cynllunio perthnasol ee bioamrywiaeth, perygl llifogydd, halogiad tir, coed, archeoleg ac ati - cofiwch fod cyfyngiadau ar safleoedd penodol fel presenoldeb piblinellau dan y ddaear, seilwaith cyfleustodau a chyfyngiadau cyfreithiol (ee cyfamodau a hawliau mynediad) yn gyfrifoldeb y tirfeddiannwr ac ni fyddant yn cael eu nodi gan yr Awdurdod;

- Gwybodaeth am rwymedigaethau cynllunio posibl a chysylltiadau perthnasol;

- Gwybodaeth am sefydliadau posibl eraill y dylid cysylltu â nhw am eu cyngor cyn cyflwyno cais, ee Cyfoeth Naturiol Cymru, Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru.

- Nodi'r wybodaeth sy'n ofynnol i fath penodol o gais gael ei ystyried yn ddilys;

- Canllawiau anffurfiol ar gynnwys awgrymedig cais; a

- Chrynodeb ysgrifenedig anffurfiol a heb ragfarn o farnau gan y Swyddog Cynllunio.

## BETH FYDD ANGEN I CHI EI WNEUD

Rhaid gwneud pob ymholiad yn ysgrifenedig (trwy lythyr neu drwy e-bost) gan nodi'n glir yr hyn yr ydych yn gofyn am gyngor amdano a ble a sut yr hoffech dderbyn y cyngor hwnnw (gweler Atodiad 1). Fel lleiafswm rhaid darparu'r wybodaeth ganlynol:

- Cyfeiriad llawn y safle a chynllun lleoliad (graddfa 1: 1250) gyda'r safle wedi'i amlinellu mewn coch;
- Disgrifiad o'r defnydd arfaethedig, natur a graddfa'r datblygiad;
- Hanes y safle megis defnyddiau blaenorol a chyfredol, caniatadau/gwrthodiadau cynllunio blaenorol, meddiannaeth;
- Unrhyw gyngor yr ydych eisoes wedi'i dderbyn gan yr awdurdod priffyrdd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw ac ati.
- Ffotograffau o'r safle;
- Brasluniau sy'n rhoi manylion y cynnig. Cynlluniau llawr ar gyfer pob llawr o'r adeilad arfaethedig ynghyd ag o leiaf frasluniau sy'n ddigon i nodi'r dull pensaernïol cychwynnol a'r deunyddiau a gynigir. Dylai lluniadau hefyd ddangos unrhyw adeiladau cyfagos i nodi cyd-destun y cynllun;
- Y ffi briodol (gweler Atodiad 1); a,
- Chadarnhad a oes angen cyngor ysgrifenedig a /neu gyfarfod.

Gyda chynigion datblygu mwy cymhleth, efallai y bydd angen cynnwys datganiad dylunio a mynediad cychwynnol, asesiadau ecolegol, tirwedd, halogiad, llifogydd a thrafnidiaeth, yn dibynnu ar leoliad, natur a chymhlethdod y datblygiad. Yn achos ymholiadau am Anheddau Mentrau Gwledig, byddai angen Arfarniad Anheddau Mentrau Gwledig[2] drafft.

Os ystyrir bod eich ymholiad yn syml iawn gan yr Adran Gynllunio a /neu ei fod yn un lle mae cyngor am ddim ar gael, gallwch gysylltu â'r Adran Gynllunio trwy e-bost yn planning.enquiries@beacons-npa.gov.uk.

[2] Gweler rhagor o wybodaeth am geisiadau Anheddau Mentrau Gwledig yn Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy sydd ar gael trwy www.cymru.gov.uk

**BETH Y BYDDWN NI YN EI WNEUD**

Ar ôl derbyn eich ymholiad cychwynnol byddwn yn gwirio bod y ffi briodol wedi'i thalu ac a yw'r holl wybodaeth angenrheidiol wedi'i chyflwyno. Os ddim, byddwn yn ysgrifennu atoch o **fewn 5 diwrnod gwaith** yn cadarnhau na fyddwn yn bwrw ymlaen â'ch ymholiad, nac yn cytuno i gyfarfod, nes bod yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i chyflwyno a'r ffi briodol wedi cael ei thalu.

Os talwyd y ffi a bod yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i chyflwyno, yna bydd y Prif Swyddog Cynllunio yn dyrannu'ch ymholiad i'r swyddog cynllunio mwyaf priodol (y 'Swyddog Achos'). Ystyrir mai dyddiad derbyn yr holl wybodaeth berthnasol a dyddiad talu'r ffi fydd y dyddiad dilys.

Anfonir cydnabyddiaeth o **fewn 5 diwrnod gwaith** i dderbyn ymholiad dilys yn yr Adran Gynllunio. Bydd y gydnabyddiaeth yn gweithredu fel derbynneb am unrhyw ffi a dalwyd, yn cadarnhau manylion y Swyddog Achos a'r cyfeirnod cyn ymgeisio perthnasol a'r dyddiad targed y bydd y Swyddog Achos yn anelu at ei roi gydag ateb ysgrifenedig i chi neu gadarnhad o gyfarfod fel y nodir yn Atodiad 1.

**Os yw'n ymddangos, am unrhyw reswm na fydd yn bosibl bodloni'r amser ymateb targed, bydd y Swyddog Achos yn cysylltu â chi i ofyn am gytundeb ar estyniad cyn gynted ā phosib.**

Bydd yr ateb ysgrifenedig a /neu gyfarfod yn cynnwys y gwasanaeth am y tâl safonol. Bydd ymholiadau pellach yn denu ffioedd ychwanegol fel y nodir yn Atodiad 1.

Bydd yr ymateb ysgrifenedig yn cael ei wirio gan Brif Swyddog Cynllunio a bydd yn amlinellu'r prif faterion cynllunio perthnasol, a chyfyngiadau a gofynion eraill.

Mae gan y Prif Swyddogion Cynllunio yr hawl i wrthod cais am gyngor cyn ymgeisio lle nad yw'n cael ei ystyried yn briodol nac yn angenrheidiol neu lle na ddarparwyd digon o wybodaeth. Ni chodir tâl yn yr achosion hyn.

**CYFARFODYDD**

Os gofynnir am gyfarfod ar-lein neu swyddfa, bydd yr ymholiad yn cael ei wirio i weld a yw'r lefel briodol o wybodaeth a'r ffi briodol wedi'i chyflwyno fel y nodir uchod a bydd y Swyddog Achos yn cysylltu â chi i drefnu dyddiad addas ar gyfer cyfarfod o fewn yr amserlenni uchod. Bydd presenoldeb swyddogion eraill yn y cyfarfod, yn cynnwys ymgynghorwyr arbenigol, yn ôl disgresiwn y Swyddog Achos.

Os ydych wedi gofyn am ymateb ysgrifenedig sy'n crynhoi'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod, bydd y Swyddog Achos yn anelu at ddarparu hyn o fewn yr amserlenni a nodir yn Atodiad 1 neu unrhyw amserlen arall fel y cytunwyd yn y cyfarfod.

**Os gofynnir am gyfarfod safle, bydd y Swyddog Achos a'r Pennaeth Rheoli Datblygu yn penderfynu a oes angen cyfarfod safle neu a ellir darparu cyngor addas heb hyn. Codir tâl ychwanegol am unrhyw gyfarfod safle (£66 yr awr yn seiliedig ar yr amser sy'n codi ymlaen llaw).**

**Sylwch y bydd angen cyfarfodydd safle fel arfer ar gyfer gwaith i adeilad rhestredig a/neu ymholiad sy'n gysylltiedig â threftadaeth adeiledig. Bydd presenoldeb swyddogion yn destun tâl yn unol â'r cyfraddau a nodir yng nghategori D isod.**

**SYLWCH**

Nid yw unrhyw gyngor a roddir gan swyddogion yr Awdurdod ar gyfer ymholiadau cyn ymgeisio yn rhagdybio unrhyw benderfyniad ffurfiol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhoddir unrhyw farn heb ragfarn i ystyriaeth ffurfiol o unrhyw gais cynllunio.

Dim ond ar ôl i'r Awdurdod ymgynghori â phobl leol, ymgynghoreion statudol ac unrhyw bartïon eraill â diddordeb y gellir gwneud y penderfyniad terfynol ar unrhyw gais y gallwch chi ei wneud wedyn. Bydd y penderfyniad terfynol ar gais yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Cynllunio a Hawliau Tramwy neu o dan bwerau dirprwyedig yn unol â Chynllun Dirprwyo a gymeradwywyd yr Awdurdod a bydd yn seiliedig ar yr holl wybodaeth sydd ar gael ar yr adeg honno. Felly, dylech fod yn ymwybodol na all Swyddogion warantu'r penderfyniad ffurfiol terfynol a wneir ar eich cais/ceisiadau.

Bydd unrhyw gyngor cyn gwneud cais a ddarperir yn cael ei ystyried yn ofalus wrth ddod i benderfyniad neu argymhelliad ar gais dilynol, yn ddarostyngedig i’r amod y gallai amgylchiadau a gwybodaeth newid neu ddod i'r amlwg a allai newid y sefyllfa honno. Oherwydd newidiadau mewn polisïau cynllunio, deddfwriaeth a chyfraith achosion, gallai perthnasedd y cyngor cyn ymgeisio leihau dros amser.

Gallai gwybodaeth sy'n gysylltiedig â thrafodaethau cyn ymgeisio fod yn destun ceisiadau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 er bod rhai eithriadau o'r angen i ddatgelu gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif yn berthnasol. Mewn achosion lle mae darpar ymgeiswyr yn ystyried bod gwybodaeth benodol wedi'i heithrio dylid darparu’r cyfiawnhad dros eu sefyllfa i'r awdurdod cynllunio lleol.

Adran Gynllunio
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynnon
Ffordd Cambrian
Aberhonddu
LD3 7HP
Ffôn: 01874 620431
planning.enquiries@beacons-

**Porth Cynllunio** - www.planningportal.gov.uk <http://www.planningportal.gov.uk> - gwnewch yn sicr eich bod yn edrych ar fersiwn Cymru'r porth cynllunio (a nodir ar gornel dde uchaf y wefan).

**Tudalen gwe Llywodraeth Cymru / Cynllunio** -

## ATODIAD 1: RHESTR TALU CYN CYFLWYNO CAIS (gan gynnwys TAW)

| Cynnig | Cyngor Ysgrifenedig yn unig[3] | Cyfarfod Safle neu Swyddfa yn unig | Cyngor Ysgrifenedig a Chyfarfod | Cyfarfodydd Ychwanegol (fesul cyfarfod ychwanegol) | Cyngor Ysgrifenedig Ychwanegol (fesul llythyr /e-bost ychwanegol) | Ymateb Targed - o ddyddiad yr ymholiad dilys |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Categori A: Mân ymholiadau | | | | | | |
| • Chwiliadau hanes cynllunio<br>• Ymholiadau dileu hawliau PD<br>• Ymholiadau i ddeiliaid tŷ<br>• Gwaith i ymholiadau coed gwarchodedig<br>• Mân ymholiadau am ddatblygu amaethyddol a choedwigaeth<br>• Datblygiad masnachol (defnyddiau A1, A2, A3, B1, B2 a B8) datblygiad arall neu ddatblygiad defnydd cymysg hyd at 40m sgwâr (arwynebedd llawr gros) | £88 | £88 | £176 | £88 | £44 | 20 diwrnod gwaith |
| **Categori B: Datblygiadau Preswyl, Masnachol a Defnydd Cymysg** | | | | | | |
| **Categori B, Lefel 1** | | | | | | |

[3] os yn ôl disgresiwn y Swyddog Cynllunio y tybir bod ymweliad safle yn angenrheidiol er mwyn darparu ymateb, bydd tâl ychwanegol o £60 yn cael ei godi.

| Cynnig | Cyngor Ysgrifenedig yn unig[3] | Cyfarfod Safle neu Swyddfa yn unig | Cyngor Ysgrifenedig a Chyfarfod | Cyfarfodydd Ychwanegol (fesul cyfarfod ychwanegol) | Cyngor Ysgrifenedig Ychwanegol (fesul llythyr /e-bost | Ymateb Targed - o ddyddiad yr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| • 1 annedd gan gynnwys trosi ysguboriau (ac eithrio gweithwyr amaethyddol<br>• Datblygiad twristiaeth effaith isel ar raddfa fach (dim 1-5 uned) h.y. cytiau bugeiliaid, yurts, podiau glampio ac ati | £298 | £132<br>£132 | £430<br>£430 | £99<br>£99 | £99<br>£99 | 25 diwrnod gwaith |
| **Categori B, Lefel 2** | | | | | | |
| • 2 - 4 annedd gan gynnwys trosi ysguboriau (ac eithrio gweithwyr amaethyddol /anheddau mentrau gwledig - gweler isod)<br>• Datblygiad masnachol (defnyddiau A1, A2, A3, B1, B2 a B8) rhwng 41m sgwâr a 150m sgwâr (arwynebedd llawr gros)<br>• Datblygiad arall neu ddefnydd cymysg | £396 | £198 | £594 | £99 | £99 | 25 diwrnod gwaith |
| **Categori B, Lefel 3** | | | | | | |
| • 5 - 9 annedd[4]<br>• Datblygiad masnachol (defnyddiau A1, A2, A3, B1, B2 a B8) 151m sgwâr - 500m sgwâr (arwynebedd llawr gros)<br>• Datblygiad arall neu ddefnydd cymysg ar raddfa debyg | £661 | £247 | £908 | £99 | £149 | 25 diwrnod gwaith |

**Os nad yw'r rhifau'n hysbys, byddai ffi yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar arwynebedd y safle a dwysedd o 30dph (anheddau yr**

| Cynnig | Cyngor Ysgrifenedig yn unig[3] | Cyfarfod Safle neu Swyddfa yn unig | Cyngor Ysgrifenedig a Chyfarfod | Cyfarfodydd Ychwanegol (fesul cyfarfod ychwanegol) | Cyngor Ysgrifenedig Ychwanegol (fesul llythyr / e-bost | Ymateb Targed - o ddyddiad yr ymholiad dilys |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori B, Lefel 4** | | | | | | |
| • 10 - 25 o anheddau[2]<br>• Datblygiad masnachol (defnyddiau A1, A2, A3, B1, B2 a B8) 501m.sg - 750m sgwâr (arwynebedd llawr gros)<br>• Datblygiad arall neu ddefnydd cymysg ar raddfa debyg | £1323 | £661 | £1984 | £149 | £198 | 25 diwrnod gwaith |
| **Categori B, Lefel 5** | | | | | | |
| • 26 - 50 o anheddau[2]<br>• Datblygiad masnachol (defnyddiau A1, A2, A3, B1, B2 a B8) 751m.sg - 1500m sgwâr (arwynebedd llawr gros)<br>• Datblygiad arall neu ddefnydd cymysg ar raddfa debyg | £1984 | £661 | £2645 | £198 | £298 | 30 diwrnod gwaith |
| **Categori B, Lefel 6** | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| • 51+ o anheddau[2]<br>• Datblygiad masnachol (defnyddiau A1, A2, A3, B1, B2 a B8) 1501m sgwâr+ (arwynebedd llawr gros)<br>• Datblygiad arall neu ddefnydd cymysg | £3307 | £1323 | £4630 | £298 | £396 | 30 diwrnod gwaith |
| **Categori C: Datblygiadau eraill** | | | | | | |

| **Cynnig** | **Cyngor Ysgrifenedig yn unig**[3] | **Cyfarfod Safle neu Swyddfa yn unig** | **Cyngor Ysgrifenedig a Chyfarfod** | **Cyfarfodydd Ychwanegol (fesul cyfarfod ychwanegol)** | **Cyngor Ysgrifenedig Ychwanegol (fesul llythyr /e-bost** | **Ymateb Targed - o ddyddiad yr ymholiad dilys** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cadarnhad ysgrifenedig cyn-brynu ar gyfer anheddau ac eiddo masnachol llai.**<br>Byddai hyn yn cynnwys:-<br><br>• Chwilio hanes cynllunio<br>• Manylion penderfyniadau cynllunio<br>• Caniatâd adeiladu rhestredig<br>• Hanes gorfodi sy'n gysylltiedig â thorri rheolaeth gynllunio a nodwyd. | N/A | N/A | £259 | N/A | N/A | 20 diwrnod gwaith |
| **Cydymffurfio Cynllunio**(yn yr un modd ond heb wirio hanes) | N/A | N/A | £198 | N/A | N/A | 20 diwrnod gwaith |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyngor ar/cytuno ar Gynllun Ymchwilio Ysgrifenedig (WSI):-** Os caiff ei gyflwyno fel ymholiad annibynnol i'r Awdurdod. I gytuno ar hyn, byddai angen cyflwyno'r WSI ynghyd â'r wybodaeth ganlynol: Cyfeiriad safle llawn a chynllun lleoliad (1:1250) gyda'r safle wedi'i amlinellu mewn coch; Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig; Cynlluniau datblygu; Unrhyw wybodaeth a dderbynnir gan gyrff treftadaeth eraill (WAT, CADW ac ati); Yn ddelfrydol, ffotograffau o'r safle. | £88 (ar gyfer pob cyflwyniad lle gwneir diwygiadau i'r WSI) | N/A | N/A | N/A | N/A | 20 diwrnod gwaith |
| Ymholiadau am Ganiatâd Hysbysebu | £88 | £88 | £176 | £88 | £44 | 20 diwrnod gwaith |
| Nid yw datblygiadau telathrebu yn ddatblygiad a ganiateir | £396 | £198 | £594 | £198 | £132 | 20 diwrnod gwaith |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygiadau ynni adnewyddadwy ee cynllluniau hydro, ffermydd solar, tyrbinau gwynt, Treulwyr Anaerobig (**gyda chynigion cymhleth efallai y bydd ffi ychwanegol, i'w gadarnhau gan y Swyddog Achos**) | £364 | £176 | £540 | £132 | £82 | 25 diwrnod gwaith |
| Cyngor cyn gwneud cais am ddatblygiadau mawr y tu allan i'r Parc Cenedlaethol | £364 | £176 | £540 | £132 | £132 | 20 diwrnod gwaith |
| Anheddau Mentrau Gwledig | £342 | £88 | £430 | £88 | £88 | 25 diwrnod gwaith |
| **Categori D: Cyngor Arbenigol yn unig** | | | | | | |
| Gwaith i adeiladau rhestredig | £66 yr awr (*rhoddir amcangyfrif o'r ffi ar ôl derbyn gwybodaeth, ni fydd unrhyw waith yn cael ei wneud cyn i'r ffi gael ei dderbyn* ) | | | | | 25 diwrnod |
| Cyngor ecolegol | £66 yr awr (*rhoddir amcangyfrif o'r ffi ar ôl derbyn gwybodaeth, ni fydd unrhyw waith yn cael ei wneud cyn i'r ffi gael ei dderbyn* ) | | | | | 25 diwrnod |
| Cyngor archeolegol | £66yr awr (*rhoddir amcangyfrif o'r ffi ar ôl derbyn gwybodaeth, ni fydd unrhyw waith yn cael ei wneud cyn i'r ffi gael ei dderbyn* ) | | | | | 25 diwrnod |
| Cyngor swyddogion arbenigol eraill e.e. Swyddog Coed, Swyddog Polisi, Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus. | £66yr awr (*rhoddir amcangyfrif o'r ffi ar ôl derbyn gwybodaeth, ni fydd unrhyw waith yn cael ei wneud cyn i'r ffi gael ei dderbyn* ) | | | | | 25 diwrnod |

**DULLIAU TALU**

**Drwy Gerdyn** - gallwch naill ai dalu trwy gerdyn yn Swyddfeydd yr Awdurdod yn Aberhonddu neu dros y ffôn drwy'r Adran Gynllunio. Ffôn: 01874 620431.

**Drwy drosglwyddiad BACS** - BANC a CHANGEN: Barclays, Banc Busnes Aberhonddu, 9 The Bulwark, Aberhonddu, LD3 7WS

CYFRIF: Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Rhif 30387819
COD DIDOLI: 20 01 43 (Cyfeiriwch eich taliadau ar-lein yn unol â hynny)

**Drwy Siec** - gwnewch bob siec yn daladwy i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac os anfonir hi ar wahân i'r ohebiaeth ysgrifenedig, anfonwch lythyr eglurhaol yn nodi eich enw, cyfeiriad a chyfeiriad y safle datblygu y mae'r ffi yn ymwneud ag ef a/neu’r Cyfeirnod Cynllunio.